**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/CS/0831/16

Alun Ffred Jones AM
Chair
Environment and Sustainability Committee

March 2016

Dear Alun Ffred,

Thank you for your letter of 17 February. I am pleased to provide the following information.

**Natural Resources Wales**

Natural Resources Wales is currently undertaking a series of business area reviews across the entire organisation which will inform the future operational model. As part of the remit letter for 2016-17 I will be asking NRW to establish an enterprise plan within its governance framework with milestones for income generation that exemplify the sustainable management of natural resources, and working with partners and communities.

**Implications of a United Kingdom withdrawal from the European Union (EU)**

We recently wrote to the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs to ask about DEFRA's contingency planning or analytical work, if any, against the possibility of a UK exit from the EU. The response set out the UK Government's focus on delivering a renegotiation with the EU, but did not provide the depth of detail we had hoped. We continue to seek an early discussion with colleagues from across the UK on this important issue.

I strongly believe that withdrawal from the EU would be catastrophic, not least for the impact this would undoubtedly have on Wales' farming, food, fisheries and land management economy. The benefits of membership to the industry in Wales include almost £200 million of CAP direct payments, additional funding from Pillar II, and food and drink exports worth over £270 million. Membership of the EU gives Wales' producers unrestricted access to 500 million potential customers and we should not forget that 200,000 jobs across all sectors in Wales depend on our access to the Single Market and the distinct benefits this provides in facilitating trade. The European Commission and the Welsh Government have worked hard to design programmes that meet both our needs, whilst we have retained our flexibility within the EU to forge our own path. I will be campaigning hard for us to remain in the EU over the coming months.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

My Department continues to horizon-scan and plan for a range of potential scenarios on issues that affect the whole portfolio and beyond, and we maintain as flexible an approach to budgets as possible.

**European Investment Bank (EIB)**

We need to be clear that I was referring to the potential pipeline projects across Wales and not the direct investment by the EIB of £350 million. That said, I see a significant role of the EIB in helping us achieve this level of investment in Green Growth projects. We are currently working to develop a pipeline of energy projects, which are being led by communities, local authorities, higher and further education, health boards and NRW. Indeed, the pipeline is now leading to Welsh Government investment in projects with the first investments being made before the end of the current Government term. The project pipeline for local authorities alone includes nearly 150 projects with an estimated capital investment of well over £350 million.

One example is that we have secured funding of £1.5 million from the European Investment Bank's ELENA Programme. This funding will enable the creation of a support function to deliver Energy Performance Contracts (EPC) to public bodies in Wales. EPCs are a tool that will enable significant investment in energy efficiency with very low up front capital outlay and low risk. We also have an agreement with Salix Finance whereby the organisation provides interest free energy efficiency loans to the public sector for activities such as light refurbishments and the delivery of LED lighting, insulation measures, upgrades of lighting boilers and refrigeration systems. Heat and renewable energy projects deliver excellent returns and there are huge opportunities. I am therefore looking to find ways to maximise the finance available to green growth in the knowledge that the opportunity and benefits are substantial. Working with external partners such as the EIB and Salix will ensure that we deliver real benefits to Wales.

**Flood risk management**

The £1 million which I announced in December to support emergency maintenance and repair work, and small-scale flood defence investments is funded from current year flood capital budgets due to planned scheme slippage. No schemes have been delayed or pushed back as a result of this funding.

Yours sincerely,

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/CS/0831/16

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

2 Mawrth 2016

Annwyl Alun Ffred,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Chwefror. Rwy'n falch o fedru darparu'r wybodaeth isod.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wrthi ar hyn o bryd yn cynnal cyfres o adolygiadau o feysydd busnes ar draws y sefydliad, a bydd canlyniadau'r adolygiadau hynny'n sail i'w fodel gweithredu yn y dyfodol. Yn llythyr cylch gwaith CNC ar gyfer 2016-17, byddaf yn gofyn iddo sefydlu cynllun menter o fewn ei fframwaith llywodraethu a fydd yn pennu cerrig milltir ar gyfer creu incwm mewn modd a fydd yn gosod esiampl i eraill o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a chydweithio gyda phartneriaid a chymunedau.

**Y goblygiadau pe bai'r Deyrnas Unedig (DU) yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE)**

Yn ddiweddar, ysgrifenasom at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ofyn iddo a oedd DEFRA wedi paratoi unrhyw gynlluniau wrth gefn neu wedi gwneud unrhyw waith dadansoddi rhag ofn y byddai'r DU yn gadael yr UE. Yn ei hymateb, nododd Llywodraeth y DU ei bod yn canolbwyntio ar aildrafod y setliad gyda'r UE, ond ni roddodd y manylion yr oeddem wedi gobeithio'u gweld. Rydym yn parhau i ofyn am drafodaeth fuan gyda chydweithwyr o bob cwr o'r DU am y mater pwysig hwn.

Rwyf yn gwbl bendant o'r farn y byddai gadael yr UE yn drychinebus, yn anad dim oherwydd yr effaith y byddai hynny'n rhwym o gael ar economi Cymru ym meysydd ffermio, bwyd, pysgodfeydd a rheoli tir. Mae manteision aelodaeth o'r UE i'r diwydiant yng Nghymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

yn cynnwys bron £200 miliwn o daliadau uniongyrchol o dan y PAC, cyllid ychwanegol o dan Golofn II, ac allforion bwyd a diod sy'n werth dros £270 miliwn. Mae bod yn aelod o'r UE yn golygu bod cynhyrchwyr yng Nghymru yn gallu cyrraedd 500 miliwn o gwsmeriaid posibl, a hynny'n ddilyffethair. Ni ddylem anghofio ychwaith fod dros 200,000 o swyddi ar draws pob sector yng Nghymru yn dibynnu ar y Farchnad Sengl ac ar y manteision arbennig sy'n deillio ohoni o ran hwyluso masnach. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed i ddyfeisio rhaglenni sy'n diwallu'n hanghenion ni ein dau, ond sydd hefyd yn caniatáu'r hyblygrwydd inni o fewn yr UE ddilyn ein trywydd ein hunain o fewn yr UE. Byddaf yn ymgyrchu'n galed yn ystod y misoedd nesaf o blaid aros yn yr UE.

Mae fy adran yn parhau i sganio'r gorwel ac i gynllunio ar gyfer amryw o senarios posibl a a allai godi mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar y portffolio cyfan a thu hwnt, ac rydym yn parhau i fod mor hyblyg ag y bo modd wrth ymdrin â chyllidebau.

**Banc Buddsoddi Ewrop (BBE)**

Mae angen inni fod yn glir mai cyfeirio at y prosiectau posibl sydd yn yr arfaeth ledled Cymru yr oeddwn i, ac nid at y buddsoddiad uniongyrchol o £350 miliwn gan BBE. Wedi dweud hynny, rwyf o'r farn bod gan BBE rôl bwysig i'w chwarae o ran ein cynorthwyo i gyrraedd y lefel hon o fuddsoddiad mewn prosiectau Twf Gwyrdd. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio i ddatblygu cyfres o brosiectau ynni arfaethedig, sy'n cael eu harwain gan gymunedau, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, byrddau iechyd a CNC. Yn wir, mae'r gyfres hon o brosiectau arfaethedig yn arwain bellach at fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn prosiectau, gyda'r buddsoddiadau cyntaf yn cael eu gwneud cyn diwedd tymor y Llywodraeth hon. Mae'r gyfres o brosiectau sydd yn yr arfaeth ar gyfer awdurdodau lleol yn unig yn cynnwys bron 150 o brosiectau, ac amcangyfrifir y bydd y buddsoddiad cyfalaf ynddynt ymhell dros £350 miliwn.

Un enghraifft yw'r swm o £1.5 miliwn yr ydym wedi'i sicrhau o dan Raglen ELENA Banc Buddsoddi Ewrop. Bydd y cyllid hwnnw'n golygu y bydd modd creu swyddogaeth cymorth er mwyn darparu Contractau Perfformiad Ynni i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Contractau hyn yn fodd i alluogi buddsoddiad sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni ond heb fawr o wariant cyfalaf ymlaen llaw a heb fawr o risg. Mae gennym gytundeb gyda Salix Finance hefyd lle mae'r sefydliad hwnnw'n rhoi benthyciadau effeithlonrwydd ynni di-log i'r sector cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau megis adnewyddu goleuadau, darparu goleuadau LED, gwaith inswleiddio, uwchraddio boeleri a systemau oeri sy'n bodoli eisoes. Mae adenillion ardderchog ar brosiectau gwres ac ynni adnewyddadwy ac mae cyfleoedd mawr yn y maes. Rwyf, felly, am ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod cymaint o gyllid ag y bo modd ar gael ar gyfer twf gwyrdd, gan wybod bod cyfleoedd a manteision sylweddol yn y maes. Drwy weithio gyda phartneriaid allanol fel BBE a Salix, gallwn sicrhau manteision gwirioneddol i Gymru.

**Rheoli perygl llifogydd**

Mae'r swm o £1 filiwn a gyhoeddais ym mis Rhagfyr i helpu gyda gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio brys, ac i fuddsoddi ar raddfa fach mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn cael ei ariannu o gyllidebau cyfalaf y flwyddyn gyfredol ar gyfer llifogydd, a hynny oherwydd llithriant mewn cynlluniau arfaethedig. Ni chafodd unrhyw gynlluniau eu dal yn ôl na'u gwthio'n ôl oherwydd y cyllid hwn.

Yn gywir,

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources